# Cam Un Teithio Llesol Abertyleri i Frynmawr

## Cwestiynau Cyffredin

**Beth yw nodau'r cynllun?**

Prif nod y cynllun yw darparu cam cyntaf llwybr cerdded a beicio strategol ar hyd y dyffryn rhwng Abertyleri a Bryn-mawr. Bydd y cam cyntaf hwn yn cysylltu Bryn-mawr a Blaenau, gyda chysylltiadau â Nant-y-glo a chyrchfannau allweddol ar hyd y llwybr.

**Pwy sy'n talu am ddylunio ac adeiladu'r cynllun hwn?**

Mae'r cynllun yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, gyda chefnogaeth Trafnidiaeth Cymru, drwy'r Gronfa Teithio Llesol.

**A fydd y cynllun yn ddiogel i holl ddefnyddwyr y ffyrdd?**

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio yn unol â'r canllawiau diweddaraf, gan gynnwys canllawiau'r Ddeddf Teithio Llesol a'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd. Bydd hefyd yn cael ei asesu'n annibynnol ar gyfer unrhyw broblemau diogelwch trwy archwiliad diogelwch ffyrdd.

**A fydd y cynllun yn effeithio ar y llif traffig ar yr A467?**

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd yr A467 fel llwybr strategol ar gyfer traffig. Mae modelu traffig cychwynnol ar gyfer y cynigion dylunio wedi canfod na fydd y cynllun yn effeithio ar weithrediad cyffredinol y cyffyrdd allweddol ar hyd yr A467.

**Pam fod y cynllun arfaethedig yn mynd ar hyd yr A467 yn lle llwybrau tawelach fel Stryd y Frenhines, Nant-y-glo, neu Barc Bywyd Gwyllt a Threftadaeth Trevor Rowson?**

Rydym am i'r llwybr fod o fudd i bawb bob amser o'r dydd drwy gydol y flwyddyn. Felly mae angen ei ddylunio i safon uchel, ei oleuo, a sicrhau bod pob rhan ohono'n weladwy i bobl eraill.

Gallai llwybr trwy Barc Bywyd Gwyllt a Threftadaeth Trevor Rowson gael effeithiau negyddol ar fywyd gwyllt pe bai'n cael ei oleuo, ac ni fyddai'n weladwy i ddefnyddwyr eraill ar y ffordd. Mae ffyrdd tawelach eraill, megis Stryd y Frenhines, yn llawer mwy cyfyngedig, gyda diffyg lled ar gael a pharcio ar y stryd.

**A fydd unrhyw effeithiau ar fusnesau yn Ystad Ddiwydiannol y Rising Sun?**

Mae Ystad Ddiwydiannol y Rising Sun yn gartref i gyflogwyr lleol llwyddiannus a bydd y cynllun yn ei gwneud hi'n haws i bobl deithio i'r gwaith. Bydd y cynllun yn gofyn am gulhau ffordd fynediad yr ystad ddiwydiannol ychydig ond ni fydd hyn yn rhwystro mynediad i lorïau. Rydym yn mireinio'r cynigion ar gyfer Ystad Ddiwydiannol y Rising Sun i leihau'r effeithiau ar dir cyfagos.

**A fydd y cynllun yn gwella mynediad i Ysgol Gymraeg Bro Helyg?**

Bydd, bydd y llwybr cerdded a beicio newydd ar hyd ffordd fynediad Ystad Ddiwydiannol y Rising Sun yn ei gwneud yn haws ac yn fwy diogel i gerdded a beicio i Ysgol Gymraeg Bro Helyg o Flaenau. Bydd gwelliannau Glyn Nant-y-glo hefyd yn cysylltu'n uniongyrchol â'r llwybr gogleddol o Nant-y-glo.

**A fydd y cynllun yn effeithio ar fioamrywiaeth a bywyd gwyllt?**

Er mwyn lleihau'r effeithiau ar fioamrywiaeth a bywyd gwyllt, rydym wedi dylunio'r cynllun i ddilyn ffyrdd presennol yn fras, fel yr A467. Lle bydd angen cael gwared ar lystyfiant a/neu goed, caiff yr effeithiau eu hasesu yn unol â pholisi a chanllawiau cynllunio. Disgwylir y bydd y cynllun yn rhoi budd net i fioamrywiaeth, gyda phlannu coed a llystyfiant i ddarparu amgylchedd gwell i fywyd gwyllt.

**A fydd y cynllun yn cael unrhyw effaith ar Barc Bywyd Gwyllt a Threftadaeth Trevor Rowson?**

Mae'r llwybr arfaethedig ar hyd yr A467 yn rhedeg ar hyd ffin orllewinol Parc Bywyd Gwyllt a Threftadaeth Trevor Rowson. Byddwn yn ceisio lleihau unrhyw effeithiau, gan gynnwys cael gwared ar goed neu lystyfiant, a byddwn yn gweithio i sicrhau budd net i fioamrywiaeth yn y parc. Bydd y cynllun yn galluogi pobl i gerdded a beicio i Barc Bywyd Gwyllt a Threftadaeth Trevor Rowson, gan ganiatáu i bobl adael eu ceir gartref a lleihau eu heffeithiau ar yr amgylchedd lleol.

**Sut bydd y cynllun yn gweithio yn Central Garage (gorsaf betrol y Gwlff), Blaenau?**

Mae'r dyluniad arfaethedig yn dilyn llwybr ar hyd Central Garage ar yr A467. Ni fwriedir cyfeirio cerddwyr na beicwyr drwy Central Garage. Bydd y groesfan arfaethedig yn caniatáu i gerddwyr neu feicwyr barhau â'u teithiau ar hyd Llwybr 465 y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol trwy Barc y Pererinion a Pharc Dyffryn. Rydym hefyd yn ystyried llwybr amgen ar hyd Heol yr Orsaf a'r isffordd drws nesaf i Sefydliad Blaenau.

**A fydd angen tir preifat i gyflawni'r cynllun?**

Rydym yn asesu unrhyw ofynion ar gyfer tir preifat a byddwn yn cysylltu'n uniongyrchol ag unrhyw dirfeddianwyr yr effeithir arnynt. Rydym yn gweithio i leihau unrhyw effeithiau ar dir preifat a byddwn yn gweithio ar y cyd â thirfeddianwyr i gyflawni'r cynllun.

**A fydd unrhyw newidiadau i derfynau cyflymder oherwydd y cynllun hwn?**

Yn gyffredinol, ni chynigir unrhyw newidiadau i derfynau cyflymder presennol. Pe bai goleuadau traffig yn cael eu gosod ar gyffordd yr A467 ac Ystad Ddiwydiannol y Rising Sun, byddai angen terfyn cyflymder is o 50mya wrth ddynesu at y gyffordd am resymau diogelwch.

**A fyddwch yn cynnal unrhyw ymgynghoriadau pellach?**

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyhoeddus hwn, bydd y dyluniadau'n cael eu hadolygu i gymryd i ystyriaeth yr adborth a dderbyniwyd. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid, gan

gynnwys Trafnidiaeth Cymru a thirfeddianwyr, i fireinio’r cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu drwy’r cam dylunio manwl.